Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cyn-ysgol School Lane**

**Church Walks**
**Llandudno**
**LL30 2HL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/07/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cyn-ysgol School Lane

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cyn-ysgol School Lane |
| Lleoedd cofrestredig | 52 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| **Yr Amgylchedd** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |
| **Arwain a Rheoli** | **Nid Oes Angen Rhoi Gradd** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau eu hunain yn y lleoliad hwn, am eu bod yn cael eu parchu ac yn brysur yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff galluog yn gofalu am y plant yn effeithiol ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu'n dda.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, ac mae digonedd o ardaloedd chwarae a gweithgareddau ysgogol ar gael i feithrin sgiliau. Mae'r ardal dan do a'r ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant. Mae amrywiaeth o deganau a gemau ar gael, ac mae'r rhain mewn cyflwr da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi tîm o staff ymroddedig a brwdfrydig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn â'r rhieni, sy'n helpu'r plant i deimlo'n gartrefol ac yn helpu eu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae gan y plant lais a gallant ddylanwadu ar eu gofal. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn yr ardaloedd awyr agored i'r plant gael dewis ohonynt. Roedd y plant a oedd â diddordeb mewn tyfu pethau yn cael eu hannog i wybod enwau'r coed, ac aeth y plant iau ati i ddyfrio'r planhigion. Mae'r plant sy'n ddwyieithog yn clywed ambell air yn iaith eu cartref, sy'n helpu i wneud iddynt deimlo'n gartrefol.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau â'r staff ac yn mynd atynt yn hapus i gael maldod ac i sgwrsio. Mae'r plant yn hyderus iawn ac yn wydn. Er enghraifft, pan gwympodd un o'r plant oddi ar ei feic, edrychodd ar ei ddwylo, a gyda chymorth y staff aeth yn ôl i chwarae ar y beic. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn perthyn, gan fod ardal bersonol ar gyfer eu cotiau a'u bagiau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Maent yn rhannu adnoddau ac yn gwneud ffrindiau, sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu. Er enghraifft, maent yn cydweithredu â'r staff pan fyddant yn awgrymu reidio beic gwahanol, ac maent yn gwrtais i'w gilydd.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu chwarae. Gwelsom fod y plant wedi ymgolli mewn gweithgareddau, fel sefyll ar stiltiau arbennig yn debyg i fwcedi pen i waered, ac roeddent yn bloeddio hwrê. Mae'r plant yn datblygu eu chwarae am eu bod yn dyfeisio eu gemau eu hunain, gan gynnwys defnyddio'r saethau symudadwy ar y llawr, ac fe'u clywsom yn trafod sut a phryd i fynd i lawr y llithren.

Caiff y plant gyfleoedd i wneud pethau'n annibynnol. Maent yn helpu eu hunain i deganau ac yn dewis gweithgareddau, ac maent yn dysgu sut i wisgo eu hesgidiau. Maent yn yfed o'u poteli eu hunain pan fyddant y tu allan, os oes angen, ac yn eu rhoi yn ôl yn eu lle.

| Gofal a Datblygiad | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac wedi adolygu'r lleoliad a'r gofal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phandemig COVID-19. Maent wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd, ac maent yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr agored Maent yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Caiff rotas a chyfarwyddiadau glanhau eu harddangos mewn sawl ardal. Mae'r staff yn glanhau ardaloedd pan fydd angen, ac yn mynd â theganau y mae'r plant wedi eu rhoi yn eu cegau, gan sicrhau na cheir achosion o groesheintio. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn darparu byrbrydau iach, fel pob math o fara a ffrwythau. Fodd bynnag, nid oedd cofnod o'r bwydydd a oedd yn cael eu cynnig i'r plant.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol gan ddefnyddio dulliau cadarnhaol. Maent yn rhyngweithio'n dda â'r plant, gan siarad â nhw yn unigol ac mewn grwpiau bach, ac yn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar bob gweithgaredd. Maent yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad ac yn hybu eu hunan-barch; maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt, gan gynnwys canmoliaeth am wrando a dilyn cyfarwyddiadau.

Mae'r staff yn gwybod pa sgiliau sydd gan y plant a'u hoff bethau, gan fod y rhieni'n llenwi ffurflenni cofrestru cynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am eu plant. Maent yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r staff yn cofnodi arsylwadau ar ddatblygiad y plant sy'n dangos eu bod yn gwneud cynnydd da yn y gwasanaeth hwn ac maent yn cynllunio gweithgareddau i hybu eu datblygiad. Ânt ati yn rhagweithiol i gynllunio ar gyfer anghenion ieithyddol y plant, a thrwy hyn gallant gynllunio gweithgareddau wedi'u teilwra i'r plentyn unigol. Mae'r staff yn hybu chwilfrydedd drwy'r gweithgareddau a'r adnoddau a ddarperir, gan gynnwys chwarae blêr a gwylio'r crwban, cydio ynddo a'i fwydo. Caiff y Gymraeg ei hybu fel ail iaith am fod geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn cael eu harddangos y tu mewn i'r adeilad, ac mae'r staff yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd. Mae dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl.

## Yr Amgylchedd — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi nodi risgiau a chymryd camau i'w lleihau neu eu dileu. Er enghraifft, mae'r staff yn sicrhau eu bod yn gwybod ble mae'r plant drwy edrych ar y cofrestrau pan fydd y plant yn symud o un ardal i ardal arall. Mae ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng yn ddiogel, ac mae'r ymarferion hyn yn cael eu cofnodi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn datblygu amgylchedd da i wella profiadau'r plant. Maent wedi gwneud gwelliannau i rai o'r ardaloedd ac wedi nodi meysydd eraill i'w gwella. Mae ardaloedd awyr agored ar gael gydag adnoddau diddorol addas, gan gynnwys ardaloedd ar wahân ar gyfer y plant iau a'r plant hŷn, iard i'r plant reidio beiciau a gardd i'r plant gael cyfle i weld coed ffrwythau a gofalu amdanynt. Mae toiledau hawdd eu defnyddio i'r plant ac ardal breifat benodol â phopeth sydd ei angen ar gyfer newid cewynnau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi arddangos gwaith celf lliwgar ac addas yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hysbysiadau yn Gymraeg yn helpu'r staff i siarad Cymraeg â'r plant hefyd.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas, gan gynnwys y rhai sy'n hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi datblygu ardaloedd ar gyfer chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored, gydag amrywiaeth dda o adnoddau, gan gynnwys ardaloedd rhifau ac ardaloedd paentio lle caiff y plant gyfle i gymysgu eu paentiau eu hunain. Mae digon o adnoddau yn yr ystafelloedd a'r ardaloedd, sy'n sicrhau bod gan y staff y cyfarpar i gynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant. Mae dodrefn pren addas i'r plant ym mhob un o'u hystafelloedd, gan gynnwys cypyrddau a silffoedd ar lefel taldra'r plant i helpu'r plant i fod yn annibynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau naturiol i'r plant eu harchwilio, megis cregyn, brigau, dail a theganau pren. Mae defnyddio eitemau o'r fath yn cyfoethogi profiadau'r plant ac yn eu helpu i ddod i wybod eu priodweddau a gallu eu disgrifio.

| Arwain a Rheoli | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am yr arferion gofal plant cyfredol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr, ac yn ystod ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni am fod trefniadau arwain cadarn ac effeithiol ar waith. Dywedodd un o'r rhieni wrthym fod y trefniadau arwain yma yn rhagorol, a'i bod yn ddiolchgar am waith caled a wneir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth wedi gofyn i'r rhieni am eu barn gan ddefnyddio holiaduron. O ganlyniad i hyn, caiff y rhieni wybod am ddiwrnod eu plentyn yn amlach drwy gyfryngau cymdeithasol diogel. Caiff unrhyw gryfderau a meysydd i'w gwella eu nodi, ac o ganlyniad i hyn ceir cynlluniau hirdymor ar gyfer gwella gan gynnwys prynu rhagor o eitemau naturiol a phren i'r plant chwarae â nhw yn yr awyr agored. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod wedi sylwi ar y gwelliannau a wnaed i'r ardaloedd awyr agored.

Mae'r broses o recriwtio staff yn gadarn. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl wiriadau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r arfarniadau blynyddol a'r monitro rheolaidd, sy'n ystyrlon, yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu cefnogi'n dda fel bod gofalu am y plant yn flaenoriaeth iddynt. Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn arwain y plant yn briodol.  O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig sydd ag agwedd rwydd. Caiff y staff hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol, er enghraifft hyfforddiant ar gadw yn ddiogel ar-lein. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am sut i ddarparu amgylchedd dysgu cyfoethog i'r plant.

Ceir cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, ac maent yn cyfrannu at lesiant y plant gan fod modd i'r rhieni ddweud wrth y staff am yr hyn y mae eu plant wedi ei fwynhau yn arbennig. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r rhieni, sy'n adlewyrchu pa mor bwysig yw'r bartneriaeth â'r rhieni iddynt. Dywedodd un o'r rhieni wrthym fod y staff yn anfon ffotograffau o'r hyn y mae'r plant yn ei wneud bob dydd, a bod cylchlythyrau rheolaidd a gwybodaeth ddefnyddiol ar hysbysfyrddau. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant. Mae'r lleoliad hefyd yn cael cyngor gan dîm Hawliau'r Blynyddoedd Cynnar a gweithwyr proffesiynol Dechrau'n Deg.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1** Rydym yn argymell y dylid cadw cofnod o'r bwydydd a gynigir i'r plant. Drwy wneud hyn, gellid dangos bod byrbrydau iach yn cael eu darparu'n gyson.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 7 Medi 2021